Cyngor Sir CEREDIGION	
ADRODDIAD I:	**Cabinet**
DYDDIAD:	**5 Gorffennaf 2022**
LLEOLIAD:	**Cyfarfod Hybrid**
TEITL:	**Polisi Bondiau Corfforaethol a Sicrwydd**
DIBEN YR ADRODDIAD:	**Rhoi adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 21 Mehefin 2022**

CEFNDIR:

Datblygwyd y Polisi Bondiau Corfforaethol a Sicrwydd drafft er mwyn sicrhau dull clir, teg a chyson gan y Swyddog o gymeradwyo a llunio bondiau gyda thrydydd partïon. Yn flaenorol, byddai'r Gwasanaethau Cyfreithiol yn gofyn i Swyddogion gynnal diwydrwydd dyladwy fesul achos ar gyfer cynlluniau fel mabwysiadu ffyrdd a phrosesau tendro pe na bai datblygwyr yn cwblhau gwaith, ond mae datblygu polisi yn darparu'r potensial i reoleiddio'r broses, gan sicrhau tegwch a chysondeb wrth asesu bondiau sy'n cael eu cyflwyno.

Gofynnodd yr Aelodau a ellid darparu rhestr o bobl a adnabyddir fel bondiau. Cadarnhaodd swyddogion y byddai rhestr yn cael ei llunio dros amser, ond byddai angen ei monitro'n barhaus er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fodloni'r meini prawf.

Gofynnodd yr Aelodau pa ganran o'r rhai sy'n cael eu rheoli ar hyn o bryd drwy fondsmon o'i gymharu â bondiau arian parod. Nododd y swyddog fod y rhan fwyaf o brosiectau priffyrdd yn cael eu rheoli drwy fondsmon oherwydd heriau o ran darparu arian ymlaen llaw.

Gofynnodd yr Aelodau pa mor hawdd yw hi i'r Cyngor ad-dalu'r arian ac a oes terfyn amser ar gyfer hyn, os nad yw'r gyfradd llog yn cadw i fyny â chwyddiant. Nododd swyddogion y byddai hyn yn ddarostyngedig i'r cytundeb sydd ar waith, a bod cytundebau sy'n ymwneud â phriffyrdd yn ddarostyngedig i dymor o 3 blynedd, gyda 50% yn cael eu talu'n ôl ar ddiwedd rhan 1, ac yn gostwng i 10% ar ddiwedd yr ail gam.

ARGYMHELLIAD(AU):

Gofynnwyd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ystyried yr argymhellion canlynol:

(i) bond a geir mewn arian parod yw dewis y Cyngor.

(ii) Mae bond sy'n cael ei sicrhau gan drydydd parti yn ei gwneud yn ofynnol i'r trydydd parti fod â statws credyd Moody's o A3 neu statws credyd gyda Standards & Poor neu Fitch o A-.

(iii) i'r Cabinet: cymeradwyo'r polisi Bondiau a Sicrwydd (Atodiad 1)

Yn dilyn pleidlais yr Aelodau, cytunwyd i argymell bod y Cabinet yn cymeradwyo'r argymhellion a nodir yn yr adroddiad, yn ogystal â'r canlynol:

- i gynnal rhestr o bersonau sy'n gymwys i fod yn fondman

Y Cynghorydd Rhodri Evans
Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol